

7. **CARIAD Y GROES**

Tôn: Navarre (610)

Pwy all amgyffred, Iesu, maint y loes
a ddioddefaist ar ddi-dostur groes?
Y goron ddrain a gwayw'r hoelion llym
a'r bicell ddur, sydd yn ddirgelwch im.

Tydi, anwylaf ffrind, paham dy drin
gan wŷr cynllwyngar fel troseddwr blin?
Ai am iti farnu'u twyll â heriol wae
ac achub cam y gwrthodedig rai?

O ryfedd wyrth! Yr erchyllterau hyn
a drodd yn oruchafiaeth ar y bryn;
yno, wrth it ddihoeni yn dy friw,
y ffrwydrodd cariad gwardigol Duw.

Y cariad a amlygaist drwy dy oes
sy'n cyrraedd ei benllanw ar y groes,
cariad sy'n gymod ac yn obaith byw,
ac sy'n iacháu doluriau'r ddynol ryw.

8. Y GROGLITH A'R PASG

Tôn: Whitburn (The Baptist Hymn Book, 515)

A fu erioed mewn unrhyw oes
 gyffelyb ŵr i ŵr y groes? -
 yn goddef ing ei boenau blin
 â'r gair 'maddeuant' ar ei fin.

A welwyd ar ein daear ni
 gyffelyb fan i Galfari? -
 y fan lle lledwyd dwylo briw
 er ymgeleddu'r ddynol ryw.

A fu erioed dywyllach awr
 nag awr daearu Iesu mawr? -
 awr gosod maen i selio bedd
 Goleuni'r byd, Tywysog hedd.

A dorrodd gwawr erioed mor hardd
 â'r wawr ddisgleiriodd yn yr ardd
 ar fore gloyw'r trydydd dydd,
 a Iesu eto'n rhodio'n rhydd?

A glywodd neb hyfrytach llais
 na'r ddau'n dychwelyd i Emaus? -
 llais a roes hyder yn eu cam,
 gan droi eu calon oer yn fflam.

O Iesu mawr, o bawb drwy'r byd,
 tydi yw'r un sy'n dwyn ein bryd;
 rho inni brofi ym mhob tasg
 o rin dy Groes, a grym dy Basg.